

Hyfforddiant

(Addas i ymgeiswyr, gweithwyr, blaenoriaid ac eraill sy'n cynorthwyo yn eu heglwysi lleol.)

- Medi 5^{ed}** **Sefydlu Tîm Gofal Bugeiliol yn yr eglwys** (Peter Cousins, Bedyddwyr) o 10.30–12.30 y bore yng Ngholeg y Bala.
Ffrindiau Dementia – sesiwn wybodaeth (Cheryl Williams) o 1.00–2.00 y pñawn yng Ngholeg y Bala.
- Medi 6^{ed}** **Delio efo Gwrthdaro** – gweithdy diwrnod (Delyth Wyn Davies, Hyfforddwr efo'r Eglwys Fethodistaidd) o 9.00–4.00 yng Ngholeg y Bala.
- Medi 7^{fed}** **Defnydd o Gyfryngau Cymdeithasol yng ngwaith yr eglwys** (Rhys Llwyd, Caernarfon) o 9.00–12.00 y bore yng Ngholeg y Bala.
- Hydref 9^{fed}** **Rheoli Data** (Ffion Williams, Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yng Ngholeg y Bala o 10.00–12.00 y bore.
- Hydref 11^{eg}** **Rheoli Data** (Ffion Williams, Eglwys Bresbyteraidd Cymru) yng Nghapel Berea Newydd, Bangor o 6.30–8.30 yr hwyr. (Swper ysgafn am 6.00.)

Rhaid cofrestru ymlaen llaw.

Cysylltwch â Mair os am fynychu fel y gellir trefnu i gyd-deithio.

Ysgrifen mwy o faint?

Rydym eisoes yn argraffu copïau o Llais Bro Aled sydd â'r ysgrifen naill ai **ddwy** neu **bedair** gwaith yn fwy o ran maint ar gyfer sawl un o'r darllenwyr. Os ydych chi, neu os gwyddoch am unrhyw un sydd yn ei chael yn anodd darllen Llais Bro Aled yn y maint fel ag y mae, plis gadewch i Mair wybod. Gallwn argraffu fel bo'r galw ac anfon y copïau hefo'r pecynnau Llais Bro Aled sy'n dod i'r eglwysi, neu wneud trefniant arall yn ôl y gofyn.

I ddod

- **MOLI** – Noson anffurfiol i addoli ac astudio nos Fercher, Medi 19eg am 7.30. Lleoliad i'w gadarnhau.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Mynydd Seion, Abergele nos Iau, Medi 20fed. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth a Gwasanaeth Cymun am 6.00.
- **CYFARFOD GWOBROWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Sadwrn, Medi 29ain yn Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno am 2.00.
- **ADUNIAD LLANW** yng Ngholeg y Bala, Hydref 5ed-6ed. Mwy o fanylion i ddilyn.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Medi 2^{il}, 2018

DILYNWCH NI AR TWITTER:
@eglwysibroaled

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i bawb ohonoch ar gychwyn tymor newydd o weithgareddau ac oedfaon ym Mro Aled! Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r haf ac yn barod ar gyfer yr hyn a ddaw wrth i'r hydref agosáu a chymaint ohonom yn cychwyn ar gyfnod newydd mewn ysgol, coleg neu swydd. Heddiw dechreuwn gyda gwasanaeth newydd Bore Bro Aled fydd yn cael ei gynnal bob deufis i bawb yn y Fro. Bydd y gwasanaethau hyn yn gyfle i bob oed ddod at ein gilydd i addoli a gwrandao ar Air Duw gyda phregeth yn yr oedfa a gweithgareddau penodol ar gyfer plant ac ieuencid. Yn ychwanegol, byddwn ni fel tîm gweinidogaethol hefyd yn wynebu cyfnod o addasu dros y misoedd nesaf, a dwi'n siŵr y byddwch yn barod i weddio am ddoethineb i mi a Mair wrth i ni geisio gwneud y defnydd gorau o'n hamser er clod i Dduw. Yn sgil yr angen i ni edrych eto ar sut ydym yn gwasanaethu'n effeithiol, bydd Llais Bro Aled yn cael ei gyhoeddi bob pythefnos o hyn ymlaen, a bydd yn cynnwys nifer o ddarnau wedi'u haddasu o ffynonellau eraill fydd yn ein helpu i ddeall ac i gwestiynu beth yw bod yn Cristion heddiw. Mae'n diolch yn enfawr i Mair am ei gwaith diflino a'i threfnusrwydd yn paratoi'r cylchlythyr yn ddi-ffael i ni bob wythnos ers blynyddoedd bellach, a gweddiwn y bydd Llais Bro Aled yn parhau i fod yn ffordd effeithiol o rannu gwybodaeth am ein gweithgareddau a'n cynorthwyo yn ein ffydd.

Wrth i ni fyw mewn dyddiau digon ansicr mewn llawer ffordd, mae'n galondid mawr bod y Beibl yn cydnabod breuder bywyd dynol ond eto'n dychwelyd at Dduw fel y rheswm pam y gall y Cristion edrych ymlaen at y dyfodol heb ofni. Mae Salm 100:3-4 yn annog yr addolwr i ddiolch i Dduw oherwydd mai'r 'Arglwydd sydd Dduw; ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym, ei bobl a defaid ei borfa.' Os ydym wedi rhoi'n ffydd yn y Bugail Da sydd wedi marw i achub ei ddefaid (Ioan 10:11), yna cofiwn fod ganddo ofal tragwyddol drosom. Nid geiriau gwag yw'r rhain ond gwirioneddau ac addewidion gwerthfawr sydd yn y Beibl ac wedi cael eu trysori gan y saint dros y canrifoedd. A thrwy ei Air a'i eglwys mae Duw am i ni gael ein hadeiladu yn ein ffydd i wynebu'r hyn a ddaw. Pam y byddai'r Arglwydd yn ymwneud â'i bobl fel hyn, a ninnau wedi crwydro oddi wrtho droeon? 'Oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenedlaeth.' Salm 100:5

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 2^{il} ➤ **Bore Bro Aled**
Oedfa i'r teulu cyfan am 10.30 y bore – trefniant newydd i'r Fro ar gyfer tymor newydd, y tro hwn yn Llansannan. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb ar ôl yr oedfa.
- Mercher – 5^{ed} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Huw Tan y Graig yn arwain a Rhodri yn pregethu ac fe weinyddir y cymun.
- Iau – 13^{eg} ➤ **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.00.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00 gyda Celfyn yn arwain a Rhodri yn pregethu.

Llansannan a Nantglyn

- Mercher – 5^{ed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (2^{il})**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 12^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion (870656) **erbyn dydd Sul (9^{fed})**, os gwelwch yn dda.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 11^{eg} ➤ Cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghewn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghewn Berain.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Saron a Pheniel

- Sul nesaf – 9^{fed} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul yno am 2.00.
- Sul canlynol – 16^{eg} ➤ Bydd Teulu Tan y Graig yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.